
| Rhif: **43** | Enw'r Ardal Cymeriad Morwedd: | **Alltraeth Môr Hafren** |
|---|---|---|




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans / © Crown copyright and database rights Ordnance Survey 100022534, 2020
Sources: Ordnance Survey, Seazone, Pembrokeshire Coast National Park Authority, Natural Resources Wales

**ACM43:Alltraeth Môr Hafren**



*Ardal sros y gorwel o Draeth Pendine ym Mae Caerfyrddin- Rhossili Downs i'r dwyrain ac Ynys Bŷr i'r gorllewin*



*Ardal rhwng yr arfordir ac Ynys Lundy ar y gorwel [i'r chwith] [Golygfa o Benrhyn Gŵyr].*

| **Disgrifiad Cryno** |
|---|
| Lleolir yr ardal hon yng nghanol Môr Hafren gyda gwely môr o gefnau tywod a sianelau sy wedi'u treillio. Mae'r ardal yn amgylchedd morol agored iawn gyda golygfeydd pell o'r tir. |
| **Nodweddion Allweddol** |
| • Môr agored ynghanol Môr Hafren gyda dyfnder dŵr canolig rhwng 30 a 60m gyda gwely môr o gefnau tywod a sianeli yn berpendicwlar i'r cerrynt llanw dwyrain-gorllewin.<br>• Yn gyffredinol gwasgiant gwynt isel a chyflymder llawn cymedrol.<br>• Ychydig o longddrylliadau<br>• Defnyddir i dreillio gyda hwylio pleser i longau mwy a gellir gweld llongau masnach i'r de.<br>• Môr â nodweddion syml, agored ar raddfa eang yn cael ei ddominyddu gan ymchwydd, tonnau a gwyntoedd gydag ymdeimlad o bellenigrwydd.<br>• Y nodweddion arfordirol gweladwy allweddol yw Rhossili Down ac Ynys Wair ac arfordir Gogledd Dyfnaint.<br>• Caiff y tawelwch ei leihau gan weithgaredd treillio. |
| **Dylanwadau Ffisegol** |
| Dŵr o ddyfnder cymedrol (30-60m), ar oledd ysgafn (<1°) gwely môr o dywod gyda thopograffi o gefnau/sianeli tywod yn berpendicwlar i'r cerrynt llanw dwyrain-gorllewin o tua 2-3 knot. Moroedd yn agored i wasgiant tonnau isel. Gwaddodion yn gorchuddio creigwely o dywodfeini Triassic a halit, wedi'u torri gan namau dwyrain-gorllewin. Cludiant gwaddodion trwy gerrynt llanw, trwy ddaliant a thrwy dyniant.<br><br>Mae'r rhywogaethau yn bennaf yn rhai sy'n byw mewn tywod a gwaelod y môr megis gwichiad moch a rhywogaethau cefnforol, gydag ymyrraeth gweithrediadau carthu. |
| **Dylanwadau Diwylliannol** |
| Mae'r ardal yn rhan o'r sianel sy'n darparu morffordd i Dde Cymru ac i Gernyw a Dyfnaint, ac fe'i bwydir gan yr Hafren a'r Avon. Mae ganddi gysylltiad cryf â'r llwybrau masnach morol gorllewin Prydain ers Cyn hanes.<br><br>Nid oes nodweddion arfordirol a chefnwlad canfyddadwy, fel sy o fewn Bae Caerfyrddin, er y gall y palaeodirluniau gorlifo o Fôr Hafren gynnig tystiolaeth am y newid o gymdeithasau cefnwlad i gymdeithasau o ffermwyr sefydlog. Cofnodir pedwar llongddrylliad ond mae eu hunaniaeth yn ansicr. Y llong bysgota Gloriosa a suddodd yn 1917 ydyw'r un y gellir bod yn weddol sicr ohoni.<br><br>Mae cysylltiadau diwylliannol yr ardal forwedd hon yn cynnwys hanes hir y fasnach dros y môr.<br><br>Mae llwybrau teithio mordeithiau pleser ar gyfer llongau yn croesi'r ardal sy'n cysylltu Cymru [Dinbych y Pysgod, Llansteffan a Phorth Tywyn] gydag arfordir gogledd Dyfnaint a Chernyw ac mae badau modur yn defnyddio'r ardal.<br><br>Mae pysgota yn yr ardal yn cynnwys potio gwichiad moch, llinellau hirion mewn patsys a threillio min y traeth a threillio dwrgwn ysgafn.<br><br>Mae trwyddedi carthu yn cynnwys y rhan fwyaf o'r ardal. Mae'r ymyl gorllewinol yn ffurfio rhan allanol ardal ymarfer beryglus militaraidd a saethu Maenor-bŷr. |
| **Nodweddion esthetig, canfyddiadol a thrwy brofiad** |
| Mae'r ardal hon yn gorwedd tua chanol Môr Hafren, 15km i'r de ddwyrain o Ynys Bŷr yn y man agosaf, ac felly mae'r tir yn weddol amlwg. Y prif nodweddion fydd Rhossili Downs ym Mhenrhyn Gŵyr i'r gogledd ac Ynys Wair ac arfordir Gogledd Dyfnaint i'r de. Bydd y tir yn ymddangos fel llinell ddimensiynol sengl isel ar y gorwel gyda lliwiau syml.<br><br>Mae gan y môr gymeriad syml, cyson ac unedig ar raddfa fawr ac ymdeimlad arbennig o fod yn agored, yn bellennig ac amlwg. Penderfynir ar ei nodweddion yn llwyr gan rymoedd naturiol y môr, trwy ymchwydd a thonnau, a gwynt. Mae'r ardal yn agored i wyntoedd o'r de orllewin ac |

mewn tywydd gwael mae'r môr yn gallu bod yn fygythiol. Mae tebygrwydd cryf o lonyddwch ac ymdeimlad o ddiffeithwch a phellenigrwydd yn y môr agored hwn.

Bydd cyfyngu ar nifer y llongau pleser ond efallai y gwelir ambell long fasnach yn cynnwys carthlongau yn defnyddio'r ardal. Bydd y defnydd o'r ardal ar gyfer ymarferion militaraidd a hyfforddiant yn tarfu'n ddifrifol ar y tawelwch ar brydiau.

## Gwasanaethau a buddion diwylliannol

Mae'r ardal hon yn cyfrannu'n sylweddol tuag at hamdden a gwasanaethau adloniadol ar lun yr adloniant morol h.y. hwylio a morio modurol, i dreftadaeth naturiol o ran yr ymdeimlad o wylltineb, ac i wasanaethau diwylliannol ac ysbrydol yn nhermau y môr heb ei ddifetha bron sy'n weledig o arfordiroedd sensitif Gŵyr a'r Parc Cenedlaethol.

## Rhesymau Dros Newid

| **Crynodeb** | | **Rhesymau allweddol dros newid** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddodiad gwaddod parhaus yn yr ardal.<br><br>Carthu yn adnewid a tharfu ar wely'r môr. | **Rhinweddau Arbennig** | Prosesau naturiol/newid hinsawdd | Gwasgedd ymwelwyr | Defnydd morol- masnachol a physgota | Egni ar y môr | Gwasgedd datblygiad | Newidiadau rheoli tir | Defnydd MOD |
| | Ysblander yr arfordir | | | | | | | |
| | Ynysoedd | | | | | | | |
| | Amrywiaeth y Tirlun | | | | | | | |
| | Pellenigrwydd, Tawelwch a Diffeithwch | | | | | | | |
| | Daeareg Amrywiol | | | | | | | |
| | Cyfoeth Cynefinoedd a Bioamrywiaeth | | | | | | | |
| | Archaeoleg Cyfoethog | | | | | | | |
| | Cymeriad Anheddiad Nodedig | | | | | | | |
| | Treftadaeth Diwylliannol | | | | | | | |
| | Mynediad i'r Parc | | | | | | | |
| | Lle i Anadlu | | | | | | | |
| | **Allwedd** | | Newid yn digwydd yn yr ardal sy'n effeithio ar y nodwedd arbennig dewisedig | | | | | |

## Sensitifeddau allweddol

Cymeriad syml, agored, diffaith a phellenig gyda golygfeydd o arfordir De Cymru ac Ynys Wair

Ffurfio rhan o'r safle agored ar gyfer Bae Caerfyrddin yng ngolwg Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a AONB Gŵyr yn cyfrannu at y syniad o bellenigrwydd a diffeithwch yn yr ardaloedd hyn.

Llwybr Arfordir Sir Benfro a Chymru fel derbynnydd sensitif sy'n edrych dros yr ardal o bellter.

Diffyg llygredd golau

Presenoldeb defnyddio carthu yn lleihau'r tawelwch.